

POLISI MYNEDIAD I ARCHIFAU

Nid oes unrhyw bwynt mewn gwarchod heb yn ogystal rhoi mynediad i'n archifau er mwyn ymchwil, addysg, pwrpasau gweinyddol, mwynhad a galwadau statudol gan gynnwys gofynion y Ddeddf Hawl i Wybodaeth. I'r perwyl hwn mae Gwasanaeth Archifau Gwynedd yn gosod ei pholisi mynediad fel a ganlyn.

1. Gwasanaethir y canlynol gan Wasanaeth Archifau Gwynedd: -
 - (a) trigolion Gwynedd
 - (b) ysgolion a cholegau'r Sir
 - (c) awdurdod Gwynedd
 - (ch) y sawl sydd â diddordeb yn hanes ac etifeddiaeth y Sir
 - (d) perchnogion y casgliadau archifol - cyrff cyhoeddus, swyddogol ac unigolion a chyrff preifat.
2. Gwneir hyn yn ddiuedd beth bynnag yw hil, iaith, rhiw, anabledd neu allu.
3. Anelir at fod yn gymdeithasol gynhwysfawr a ni chodir tâl am fynediad personol at ddaliadau gwreiddiol y Sir. Rhoddir gwybodaeth sylfaenol am ddaliadau am ddim i ymholwyr nad ydynt yn gallu mynychu'r archifdy; a lle mae modd, darperir gwasanaethau ymchwil am dâl rhesymol i ymholwyr o bell.
4. Rhoddir mynediad i'n casgliadau drwy: gatalogau, mynegai, ystafelloedd ymchwil croesawgar lle ceir arweiniad, a chymorth ac ar y we. Cedwir yr hawl i wrthod mynediad i ddeunydd gwreiddiol lle mae ystyriaethau cadwraethol yn hawlio hyn, ond gwneir pob ymdrech i ddarparu copiâu yn lle deunydd bregus. Lle mae cyfyngiadau statudol, cyfreithiol neu gadwraethol i gasgliadau rhoddir eglurhad i'r defnyddiwr. Mae rheolau a chanllawiau i'w defnyddio'n ddiuedd. Hysbysir lleoliadau ac amseroedd agor ein harchifdai yn glir mewn pamffledi gwybodaeth ac ar y we.
5. Hyrwyddir mynediad i'n casgliadau drwy raglen addysg benodol, cyrsiau i ddarpar ddefnyddwyr, sgysiau, arddangosfeydd a chyhoeddiadau achlysurol. Yn y ffordd yma mae'r Gwasanaeth Archifau yn codi ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o'n daliadau a gwasanaeth drwy raglen estyn allan.
6. Mae'r Gwasanaeth Archifau yn ennill ar y cyfle i hyrwyddo defnydd o'n casgliadau a'n gwasanaethau mewn partneriaeth a chyrff eraill lleol a chenedlaethol gan gynnwys archifdai, llyfrgelloedd, amgueddfeydd, sefydliadau addysg, cwmnïau darlledu a chyhoeddwyr.
7. Mae gan y Gwasanaeth Archifau Bolisi Casglu a Gwaredu, a adolygir pob 5 mlynedd, sydd yn datgan yn glir ffiniau'r polisi casglu. Mae'r polisi yn datgan yn

ogystal *"Ni fydd Gwasanaeth Archifau yn ceisio cynrychioli unrhyw safbwyntiau hanesyddol, enwadol nac arall arbennig wrth gael ei gofnodion, ond bydd yn adlewyrchu mor wrthrychol ag sydd modd bob agwedd o orffennol a phresennol y Sir"*.

8. Ymgynghorir â defnyddwyr, a lle y bo'n bosibl y sawl na sydd yn defnyddio'n gwasanaeth yn rheolaidd, er mwyn sicrhau bodlonrwydd y cyhoedd ac er mwyn dadansoddi dyheadau'r cyhoedd.
9. Fe fydd y Gwasanaeth Archifau yn ymateb i gwynion ac yn cadw at bolisi'r awdurdod yn y modd y mae'n datrys unrhyw gwyn.
10. Mae'r Gwasanaeth Archifau yn atebol i'r awdurdod am berfformiad y gwasanaeth ac ymysg y dangosyddion perfformiad cynhwysir lefel mynediad i'n casgliadau.
11. Rheolir y Gwasanaeth Archifau yn effeithiol er mwyn cyrraedd ei thargedau gan gynnwys rhai mynediad. Rheolir hefyd yn ôl gofynion y Cynulliad ar gyfer moderneiddio a gwella gwasanaethau llywodraeth leol er mwyn gwella'n gwasanaeth a chyfleon mynediad.
12. Er mwyn sicrhau mynediad cyfartal a chyfrifol disgwylir i'n defnyddwyr barchu ein defnyddiau archifol, staff a defnyddwyr eraill. Mae'r Gwasanaeth felly yn datgan rheolau mynediad yn glir.